- Yn yr hyn sydd mewn gwirionedd yn set gymhleth o drefniadau, mae nifer o sefydliadau yn rhannu cyfrifoldebau am wasanaethau trên yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth y DU, Network Rail, Y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd fel y rheoleiddiwr annibynnol a chwmnïau trên perthnasol (Ffigur 2)². Mae Deddf Rheilffyrdd 2005 yn rhoi rhai pwerau i Lywodraeth Cymru dros fasnachfaint rheilffyrdd a seilwaith rheilffyrdd Cymru a'r Gorau, er bod y pwerau hynny'n gyfyngedig. Mae masnachfaint rheilffyrdd Cymru a'r Gorau yn cynnwys llwybrau cymudo i mewn i brif ddinasoedd a threfi, llwybrau mwy gwledig, a llwybr sy'n cysylltu Gogledd Cymru a De Cymru gan redeg ar hyd llinell y Gororau ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr (Atodiad 2). Mae'r cytundeb masnachfaint 15 mlynedd presennol, â Threnau Arriva Cymru, yn para tan 2018.

¹ Mae'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd hefyd yn coladu amcangyfrifon o nifer y teithwyr sy'n teithio i bob gorsaf ac oddi yno (mynediadau ac ymadawiadau). Dengys y data hynny fod defnydd teithwyr yng Nghymru wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2005-06 ac amcangyfrifir bod gorsafodd wedi gweld 49 o filiynau o fynediadau ac ymadawiadau yn 2014-15.

² Ceir rhagor o fanylion am rolau a chyfrifoldebau Network Rail yn **A short guide to Network Rail**, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ym mis Gorffennaf 2015. Ceir gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau Network Rail ac eraill sy'n ymwneud â chynllunio, megis yr Adran Drafnidiaeth, yn **Planning and delivery of the 2014-2019 rail investment programme**, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ym mis Medi 2015.

Ffigur 2 – Crynodeb o gyfrifoldebau sefydliadol ar gyfer cynllunio, ariannu a darparu gwasanaethau trên a phrosiectau seilwaith

| | |
|--|---|
| <p>Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU</p> | <p>Mae'n goruchwyllo cyfeiriad strategol gwasanaethau trên ac yn ariannu'r rhan fwyaf o'r prosiectau seilwaith, ledled y rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru a Lloegr.</p> <p>Yn y Fanyleb Allbwn Lefel Uchel, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn nodi'r blaenoriaethau o ran buddsoddi mewn rheilffyrdd dros y 'cyfnod rheoli' o bum mlynedd. Ym mis Gorffennaf 2012, cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth y Fanyleb Allbwn Lefel Uchel bresennol sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr ar gyfer y cyfnod rheoli rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2019. Yn y Datganiad o'r Cyllid sydd ar Gael, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi'r arian cyhoeddus sy'n debygol o fod ar gael er mwyn sicrhau y cyflawnir y prosiectau hyn. Er mai'r Adran Drafnidiaeth sy'n gyfrifol yn y pen draw am lunio'r Fanyleb Allbwn Lefel Uchel, mae eraill, megis y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, hefyd yn cymryd rhan yn y broses o'i datblygu.</p> |
| <p>Network Rail</p> | <p>Mae Network Rail yn berchen ar rwydwaith rheilffyrdd Prydain, gan gynnwys traciau, signalau, pontydd, twneli a 18 o orsafoedd allweddol, yn ei gynnal a'i gadw ac yn ei ddatblygu. Ariennir Network Rail drwy grantiau gan yr Adran Drafnidiaeth a Transport Scotlent, o incwm o eiddo masnachol ac o daliadau mynediad i draciau gan gwmnïau trên a chludo nwyddau.</p> <p>Yn gyfreithiol, Network Railway yw ymgwymerwr statudol y rhwydwaith rheilffyrdd a dim ond i wneud gwaith penodol a darparu gwasanaethau diogelu asedau y mae ganddo hawliau cyfreithiol.</p> <p>Ym mis Tachwedd 2011, crëwyd Network Rail Cymru i reoli seilwaith y rheilffyrdd yng Nghymru; galluogi Network Rail i fod yn fwy ymatebol i anghenion Cymru a sicrhau mwy o atebolrwydd lleol.</p> |
| <p>Y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd</p> | <p>Y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd yw'r rheoleiddiwr diogelwch ac economaidd annibynnol ar gyfer rheilffyrdd Prydain. Mae'r sefydliad yn sicrhau bod y rhwydwaith yn gweithredu'n ddiogel ac yn ddibynadwy ac yn cynnig gwerth am arian i drethdalwyr a chwsmeriaid, yn dal Network Rail i gyfrif ac yn sicrhau bod gan gwmnïau trên a chludo nwyddau fynediad teg i'r rhwydwaith rheilffyrdd a bod y farchnad yn gystadleuol ac yn deg.</p> |

| | |
|--------------------------|--|
| <p>Llywodraeth Cymru</p> | <p>Cyn i Lywodraeth Cymru fynd yn gyfrifol am reoli masnachfaint Cymru a'r Gororau yn 2006, llofnododd Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth Gydgytundeb rhwng Partion a gynhwysai ddiffiniadau o wasanaethau Cymru yn unig, gwasanaethau i Gymru a gwasanaethau Lloegr. Mae gwasanaeth i Gymru yn wasanaeth sy'n dechrau ac yn gorffen yng Nghymru neu sy'n stopio o leiaf unwaith yng Nghymru. Mae'r Cydgytundeb rhwng Partion yn rhestru pedwar llwybr fel rhai sy'n wasanaethau i Loegr: Henffordd i'r Amwythig; Yr Amwythig i Crewe; Birmingham New Street i'r Amwythig; a Crewe i Gaer. Mae'r Adran Drafnidiaeth yn talu cymhorthdal i Trenau Arriva Cymru am wasanaethau Lloegr.</p> <p>O'i grant bloc a ddarperir gan Drysorlys y DU, mae Llywodraeth Cymru yn talu cymhorthdal i Drenau Arriva Cymru am Wasanaethau Cymru yn unig a Gwasanaethau i Gymru. Trosglwyddodd yr Adran Drafnidiaeth arian ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn 2006-07 a 2007-08 ac ar ôl hynny cyfunwyd yr arian hwn i greu'r grant bloc blynyddol.</p> <p>Ar gyfer holl wasanaethau'r fasnachfaint, gan gynnwys gwasanaethau Lloegr, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gyfrifol am wneud unrhyw daliadau cymell perfformiad cymwys. Pan drosglwyddodd arian ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn 2006-07, ni ddarparodd yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer unrhyw lefel o daliadau cymell perfformiad.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gallu addasu cytundeb masnachfaint Cymru a'r Gororau er mwyn darparu gwasanaethau sy'n ychwanegol at fanyleb y fasnachfaint ar ei thraul ei hun.</p> <p>Ym mis Tachwedd 2014, daeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gytundeb mewn egwyddor i ddirprwyo swyddogaethau masnachfreinio rheilffyrdd gweithredol i Lywodraeth Cymru o fis Ionawr 2017. Fodd bynnag, mae'r dyddiad targed gwreiddiol wedi'i ddisodli drwy gytundeb i drosglwyddo swyddogaethau masnachfreinio yn nes ymlaen yn 2017. Mae'r ddwy lywodraeth yn cydweithio i alluogi Llywodraeth Cymru i gaffael masnachfaint nesaf Cymru a'r Gororau yn llwyddiannus o fis Hydref 2018.</p> <p>O dan Ddeddf Rheilffyrdd 2005, gall Llywodraeth Cymru gyfrannu arian er mwyn helpu i gyflawni prosiectau arfaethedig Network Rail a chomisiynu ei phrosiectau ei hun i'w cyflawni gan Network Rail neu, o bosibl, gan contractwyr eraill.</p> |
|--------------------------|--|

| | |
|--------------|---|
| Cwmnïau Trên | <p>Yn ogystal â Threnau Arriva Cymru, sy'n gweithredu masnachfaint Cymru a'r Gororau, mae tri chwmni trên arall yn gweithredu masnachfreintiau sydd â llwybrau yng Nghymru (yn ychwanegol at eu gwasanaethau yn Lloegr):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rheilffordd y Great Western (Paddington Llundain i Abertawe a Chaerfyrddin, Caerdydd i Dde-orllewin Cymru); • Virgin (Euston Llundain i Gaerdydd, yr Amwythig a Wrecsam); a • CrossCountry (Nottingham i Gaerdydd drwy Birmingham). <p>Mae'r masnachfreintiau hyn yn cynnwys gwasanaethau yng Nghymru ac, felly, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddrafnidiaeth ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch y trefniadau masnachfaint hyn. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw rôl ffurfiol arall o ran y masnachfreintiau sy'n cwmpasu'r llwybrau hyn. Erys pob pŵer a chyfrifoldeb gyda'r Adran Ddrafnidiaeth. Fodd bynnag, gall Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith seilwaith er mwyn helpu i wella gwasanaethau ar y rhannau o'r llwybrau hyn a leolir yng Nghymru sydd hefyd yn gwasanaethu masnachfaint Cymru a'r Gororau. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu gwelliannau i orsafoedd yng ngogledd Cymru a wasanaethir gan lwybr Euston Llundain i Gaerdydd a redir gan gwmni Virgin (y Fflint, Cyffordd Llandudno a'r Rhyl) a gorsaf Parkway Port Talbot a wasanaethir gan lwybr Paddington Llundain i Abertawe a redir gan Rheilffordd y Great Western.</p> |
|--------------|---|

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- 3 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau sy'n nodi sut mae'n bwriadu gwella gwasanaethau trên, seilwaith a threfniadau cyflawni i weithredu'r nodau a nodir yn strategaeth ddrafnidiaeth 2008³. Yn fwy diweddar, nododd y **Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol**, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2015, gynlluniau buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer pob dull o deithio ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd o 2015, ac mae'n cynnwys amrywiaeth o ymyriadau i wella gwasanaethau trên ledled Cymru. Mewn rhai achosion, mae'r terfyn amser ar gyfer cyflawni yn ymestyn y tu hwnt i gyfnod y cynllun.
- 4 O fewn y fframwaith cyffredinol a nodir gan strategaeth 2008, mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran rheilffyrdd wedi newid dros amser. Yn ddiweddar, mae polisi wedi canolbwyntio ar hyrwyddo cysylltedd rhwng gwahanol leoliadau allweddol er mwyn ysgogi'r economi a chreu swyddi. Yn flaenorol, canolbwyntiwyd ar gysylltiadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin a, chyn hynny, gysylltiadau rhwng y gogledd a'r de. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Pwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad Cenedlaethol adroddiad ar y **Blaenoriaethau ar gyfer Dyfodol Seilwaith Rheilffyrdd Cymru**. Nododd yr adroddiad farn y Pwyllgor ynghlân â blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol, er mwyn dylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

3 Llywodraeth Cymru, **Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl – Strategaeth Trafnidiaeth Cymru**, Mai 2008.

- 5 Ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi ystyried a yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi trefniadau effeithiol ar waith er mwyn helpu i ddatblygu a darparu seilwaith a gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried materion sy'n ymwneud â phwerau a dylanwad ehangach Llywodraeth Cymru mewn perthynas â seilwaith a gwasanaethau rheilffyrdd a buddsoddiad cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried perfformiad gwasanaethau ar fasnachfaint Cymru a'r Gororau a chynlluniau ar gyfer caffael gwasanaethau Cymru a'r Gororau o 2018. Mae **Atodiad 1** yn rhoi rhagor o fanylion am gwmpas ein gwaith a'n dulliau archwilio.
- 6 **Daethom i'r casgliad, o fewn terfynau ei phwerau cyfyngedig, fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhagweithiol wrth geisio dylanwadu ar benderfyniadau ariannu gan eraill ac wedi gwneud buddsoddiad sylweddol i wella seilwaith a gwasanaethau rheilffyrdd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Lywodraeth Cymru o'r farn y bydd y pwerau ychwanegol y mae'n disgwyl eu cael yn 2017 i gaffael masnachfaint nesaf Cymru a'r Gororau yn ei helpu i sicrhau y bydd y fasnachfaint nesaf yn cyflawni ei blaenoriaethau ac yn gwella perfformiad gwasanaethau ymhellach. Fodd bynnag, mae nifer o risgiau, heriau a chyfleoedd i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â chaffael y fasnachfaint, ac mae rhai penderfyniadau allweddol i'w gwneud o hyd.** Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi trosolwg byr o'n canfyddiadau allweddol.
- 7 **Bu Llywodraeth Cymru yn ceisio ymestyn ei phwerau a'i dylanwad strategol cyfyngedig dros wasanaethau trên yng Nghymru.** Cyn i'r fasnachfaint nesaf ddechrau yn 2018, yn ystod 2017 mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl cael pwerau i gaffael masnachfaint nesaf Cymru a'r Gororau, y mae'n disgwyl iddynt ei helpu i sicrhau bod y fasnachfaint yn diwallu anghenion hirdymor Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y bydd y fasnachfaint newydd yn cyflawni nifer o ganlyniadau cadarnhaol i deithwyr, yr economi a'r amgylchedd.
- 8 Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio'r un pwerau i benderfynu ar brosiectau seilwaith rheilffyrdd ag sydd gan lywodraethau'r DU a'r Alban, ond nid oes ganddi'r pwerau hynny ar hyn o bryd. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan weithredol yn y broses gynllunio ar gyfer y cylch buddsoddi mewn seilwaith nesaf ledled Cymru a Lloegr rhwng 2019 a 2024.
- 9 At hynny, mae gan Lywodraeth Cymru lai o bŵer dros Network Rail nag sydd gan lywodraethau'r DU a'r Alban o ran y camau y gall eu cymryd os bydd problemau yn codi o ran cyflawni prosiectau. Serch hynny, gallai Llywodraeth Cymru fod wedi gweithredu ynghynt i atgyfnerthu ei threfniadau goruchwyllo a'i threfniadau cytundebol ar gyfer y prosiectau a ariennir ganddi, er bod sefydlu Bwrdd Rheoli Prosiectau a Rhaglenni ar y cyd rhwng Network Rail a Llywodraeth Cymru wed bod yn ddatblygiad cadarnhaol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu dau brosiect seilwaith gan ddefnyddio contractwyr heblaw am Network Rail ond mae'n gobeithio cymhwyso'r dull hwn o weithredu'n ehangach, yn arbennig er mwyn gwneud y gwaith seilwaith ar gyfer Metro De Cymru.

- 10 **Rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2016, cyfrannodd Llywodraeth Cymru tua £362 miliwn at wariant sector cyhoeddus ehangach ar reilffyrdd yng Nghymru, ond ni wnaeth ddigon i werthuso'r buddiannau sydd wedi deillio o'i buddsoddiad.** Yn ystod y cyfnod hwn, buddsoddodd Llywodraeth Cymru £109 miliwn mewn gwell gwasanaethau ar ben cost graidd masnachfaint Cymru a'r Gororau, sef £617 miliwn. Bu'n ofynnol i Lywodraeth Cymru dalu £27 miliwn i Trenau Arriva Cymru mewn taliadau cymell perfformiad cytundebol, net o daliadau cosb.
- 11 At hynny, buddsoddodd Llywodraeth Cymru £226 miliwn mewn prosiectau i wella seilwaith rheilffyrdd, gan gynnwys arian gan gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd. Heb gynnwys yr arian hwn gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd, buddsoddodd Network Rail £1.4 biliwn yn seilwaith rheilffyrdd Cymru rhwng mis Ebrill 2011 a mis Mawrth 2016. Buddsoddodd Network Rail yr arian hwn yn bennaf mewn prosiectau i adnewyddu'r seilwaith presennol (£882 miliwn) a gwaith cynnal a chadw (£301 miliwn), gyda £235 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn gwelliannau. Mae Llywodraeth Cymru wedi adeiladu ar waith arfaethedig gan Network Rail er mwyn helpu i wella'r seilwaith a gwasanaethau ymhellach.
- 12 Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull systematig o werthuso gwerth am arian ei buddsoddiad mewn gwasanaethau trên. Mae nifer o adolygiadau blaenorol wedi nodi cyfleoedd i atgyfnerthu prosesau monitro a gwerthuso ac mae Llywodraeth Cymru wrthi'n atgyfnerthu'r trefniadau hyn.
- 13 Fel y nodir yn y **Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol**, ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu canolbwyntio ei rhaglen tymor canolig ei hun ar gyfer buddsoddi yn seilwaith y rheilffyrdd yn y dyfodol ar brosiectau Cam 2 Metro De Cymru. Pwysleisiodd swyddogion Llywodraeth Cymru i ni fod y Cynllun yn ddogfen 'fyw' ac y caiff ei diweddaru'n rheolaidd. Mae cynllun Cam 2 y Metro yn adeiladu ar gynllun Trydaneiddio Llinellau'r Cymoedd ac amcangyfrifir y bydd yn costio tua £734 miliwn. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud cais am £125 miliwn o arian yr Undeb Ewropeaidd sydd ar gael drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop i ategu ei buddsoddiad ei hun, yr amcangyfrifwyd y bydd yn costio £609 miliwn yn ôl prisiau 2018, ar ben cyfraniad Llywodraeth y DU, sef £125 miliwn. Ers canlyniad y refferendwm ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, mae'r Prif Weinidog wedi ceisio cadarnhad y dylai Cymru allu parhau i hawlio'r arian hwn neu allu cael arian cyfatebol gan Lywodraeth y DU.
- 14 **Ers 2006, mae perfformiad masnachfaint Cymru a'r Gororau wedi gwella, er bod cymariaethau â gwasanaethau trên eraill yn y DU yn dangos perfformiad cymysg.** Trenau Arriva Cymru a gafodd y trydydd cymhorthdal mwyaf o blith yr holl gwmnïau trên yn y DU i weithredu masnachfaint bresennol Cymru a'r Gororau rhwng 2011-12 a 2014-15, er nad yw cymhorthdal mawr yn anghyffredin ar gyfer masnachfreintiau rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwledig. Mae Trenau Arriva Cymru, i raddau helaeth, wedi cyflawni'r targedau blynyddol ar gyfer

perfformiad a nodwyd o dan y cytundeb masnachfaint, er bod y targed wedi dod yn fwy heriol. Mae boddhad teithwyr â Trenau Arriva Cymru wedi gwella i ryw raddau. Fodd bynnag, dengys cymariaethau â gwasanaethau trên eraill yn y DU berfformiad cymysg.

- 15 **Mae nifer o risgiau, heriau a chyfleoedd i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â chaffael gwasanaethau Cymru a'r Gororau o 2018, ac mae rhai penderfyniadau allweddol i'w gwneud o hyd.** Nod Llywodraeth Cymru yw gosod contract integredig ar gyfer Cymru a'r Gororau a'r Metro yn 2017 yr amcangyfrifir ei fod yn werth tua £3.5 biliwn. Ar ôl iddo gael ei gaffael, hwn fydd y contract integredig cyntaf o'i fath yn y DU. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai caffael contract integredig gynnig cyfle iddi reoli rhyngddibyniaethau rhwng caffael cerbydau, gwaith seilwaith a darparu gwasanaethau o dan y fasnachfaint yn well. Mae hefyd yn credu y bydd contract integredig yn gwella ansawdd yn sylweddol, gan gynnwys amseroedd teithio cyflymach, gwasanaethau mwy dibynadwy a lleddfu problem gorlenwi. Fodd bynnag, mae enghraifft ddiweddar masnachfaint InterCity West Coast yn Lloegr yn nodi rhai o'r risgiau sydd ynghlwm wrth y broses gaffael ar gyfer gwasanaethau newydd Cymru a'r Gororau. Mae hyd y fasnachfaint – sy'n debygol o bara 15 mlynedd – yn golygu ei bod yn arbennig o bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cael manyleb y contract yn iawn.
- 16 Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cwmni Trafnidiaeth Cymru a bwrdd cynghori strategol i roi cyngor ar y broses gaffael a'i rheoli. Mae'r dull deialog gystadleuol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn golygu nad yw wedi nodi'r ateb ymlaen llaw, yn hytrach mae'n gweithio gyda'r diwydiant i lunio ateb ymarferol sy'n addas at y diben. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ar y model gweithredu ar gyfer y gwasanaethau newydd eto.
- 17 Nid yw Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi penderfynu eto ar rai o fanylion y setliad ariannol ar gyfer masnachfaint Cymru a'r Gororau ac mae'n anochel y bydd cyfyngiadau cyllidebol ehangach yn ystyriaeth mewn penderfyniadau ynghylch fforddiadwyedd a blaenoriaethu gwell gwasanaethau yn gyffredinol yn y tymor canolig. Penderfynir ar y dull o reoli a chaffael cerbydau fel rhan o'r broses deialog gystadleuol ar gyfer caffael y fasnachfaint. Mae cerbydau yn fater penodol oherwydd rheoliadau, a elwir yn gyffredin yn 'Persons with Reduced Mobility Regulations', sy'n golygu bod yn rhaid i bob trên fod yn hygyrch erbyn 1 Ionawr 2020.

Argymhellion

Mewn ymateb i adolygiadau blaenorol, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cymryd camau i fynd i'r afael â gwendidau yn ei threfniadau ar gyfer gwerthuso effaith ei buddsoddiad mewn gwasanaethau trên a seilwaith y rheilffyrdd. Ym mis Mawrth 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru brotocol ar gyfer gwerthuso ei rhaglen buddsoddi mewn rheilffyrdd a'r Metro ar ôl i'r prosiectau ddod i ben. Wrth lunio ein hargymhellion ein hunain, rydym hefyd wedi ystyried yr argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad Cenedlaethol yn ei adroddiadau blaenorol ar faterion sy'n ymwneud â rheilffyrdd.

- A1 Mae gan gysylltiadau cytundebol Llywodraeth Cymru â Network Rail rai cyfyngiadau, am eu bod yn seiliedig ar contractau templed a luniwyd yn bennaf i reoli'r gydberthynas rhwng Network Rail ac arianwyr yn y sector preifat. Fodd bynnag, gall Llywodraeth Cymru roi mwy o sicrwydd ynghylch ariannu ei chontractau nag y gall buddsoddwyr yn y sector preifat ei wneud (**paragraffau 1.33-1.39**). **Argymhellwn, os bydd Llywodraeth Cymru am i Network Rail gyflawni prosiect y mae'n ei ariannu, y dylai geisio datblygu contractau pwrpasol. Dylai contractau pwrpasol ddiogelu buddiant Llywodraeth Cymru yn well drwy gydnabod y ffaith y gall roi mwy o sicrwydd ynghylch ariannu contractau yn ogystal ag adlewyrchu amgylchiadau a risgiau prosiectau unigol.**
- A2 Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gyflawni mwy o brosiectau drwy contractwyr heblaw am Network Rail am ei bod o'r farn y bydd y dull hwn o weithredu yn ei galluogi i sicrhau gwell gwerth am arian yn enwedig wrth ddatblygu ei chynlluniau ar gyfer Metro De Cymru. Yn ddiweddar, lluniodd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Network Rail er mwyn helpu i gaffael masnachfaint newydd Cymru a'r Gororau a'r Metro (**paragraffau 1.40-1.47**). **Argymhellwn, wrth i'r broses gaffael fynd rhagddi, y dylai Llywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a sicrhau bod unrhyw wersi yn cael eu cymhwyso at ei chydberthynas barhaus â Network Rail.**
- A3 Mae Cam 2 Metro De Cymru yn adeiladu ar gynllun Trydaneiddio Llinellau'r Cymoedd ac, ar hyn o bryd, amcangyfrifir y bydd yn costio cyfanswm o tua £734 miliwn yn ôl prisiau 2018 (**paragraffau 2.32-2.37**). **Yn gyson â'r argymhellion yn yr Adroddiad ar Brosiectau Trafnidiaeth Mawr, a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Ionawr 2011, argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:**
- a **cofnodi gwybodaeth a fydd yn olrhain perfformiad prosiectau cam 2 y Metro ar gamau cyflawni allweddol;**
 - b **cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen i hwyluso meincnodi perfformiad prosiect yn erbyn prosiectau mewn rhannau eraill o'r DU;**
 - c **cofnodi'r holl newidiadau yng nghostau'r prosiect ar bob cam o gylch oes y prosiect; a**
 - ch **chofnodi a rhannu'r rhesymau dros unrhyw gynnydd mewn costau ac oedi er mwyn llywio prosiectau trafndiaeth eraill Llywodraeth Cymru.**

- A4 Yn 2017, nod Llywodraeth Cymru yw gosod contract integredig ar gyfer prosiectau Cymru a'r Gororau a'r Metro yr amcangyfrifir ei fod yn werth £3.5 biliwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cwmni Trafnidiaeth Cymru i bennu a chaffael y contract integredig. Mae enghraifft ddiweddar masnachfaint InterCity West Coast yn Lloegr yn nodi rhai o'r risgiau sydd ynghlwm wrth y broses gaffael ([paragraffau 4.4-4.5](#)). **Argymhellwn y canlynol:**
- a **Dylai Pwyllgor Archwilio a Risg perthnasol Llywodraeth Cymru graffu ar drefniadau llywodraethu'r Cwmni Trafnidiaeth a'r cynnydd y mae'n ei wneud o ran caffael contract integredig Cymru a'r Gororau a Metro a'r gwaith cysylltiedig o ddatblygu'r dull o reoli a chaffael cerbydau er mwyn ei alluogi i gydymffurfio â'r gofyniad i sicrhau bod pob trên yn hygyrch i bobl sy'n cael trafferth symud o gwmpas erbyn 2020. Bydd hyn yn cynnwys y Pwyllgor Archwilio a Risg yn sicrhau ei hun bod Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael ag argymhellion adolygiad Gateway, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2016, yn amserol.**
 - b **Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei threfniadau rheoli prosiect a risg ar gyfer y broses gaffael wedi rhoi sylw llawn i wersi perthnasol ac argymhellion o adroddiadau diweddar y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ynglŷn â rhaglenni masnachfreinio rheilffyrdd a seilwaith rheilffyrdd, ac adroddiadau cysylltiedig gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd y DU.**
 - c **Dylai Llywodraeth Cymru hefyd weithio gyda swyddogion yr Adran Drafnidiaeth i weithredu'r gwersi o brosesau caffael masnachfaint llyyddiannus a'r rhai a fu'n fwy heriol.**
 - ch **Ochr yn ochr â'r broses gaffael, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu system sy'n ei galluogi i ddangos y gwerth am arian y mae'r elfen masnachfaint o'r contract newydd yn ei gynnig, o'i chymharu â'r fasnachfaint bresennol a masnachfreintiau eraill.**
- A5 Yn ei adroddiad, **Dyfodol Masnachfaint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau**, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013, gwnaeth Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru nifer o argymhellion ynghylch y broses fasnachfreinio. Yn ei hymateb i nifer o'r argymhellion, nododd Llywodraeth Cymru nad hi oedd yr awdurdod masnachfreinio ([paragraff 4.28](#)). Gan fod Llywodraeth Cymru yn disgwyl cael pwerau i gaffael masnachfaint nesaf Cymru a'r Gororau yn ystod 2017, **argymhellwn y dylai gwaith cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer y fasnachfaint ystyried yr argymhellion a wnaed gan ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Ddyfodol Masnachfaint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a gynhaliwyd yn 2013.**

Rhan 1

Bu Llywodraeth Cymru yn ceisio ymestyn ei phwerau a'i dylanwad strategol cyfyngedig dros wasanaethau trên yng Nghymru



- 1.1 Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym yn nodi'r pwerau newydd y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl eu cael dros fasnachfaint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, cyn i'r fasnachfaint nesaf ddechrau yn 2018. Rydym hefyd yn ystyried rôl Llywodraeth Cymru o ran sicrhau y buddsoddir yn seilwaith y rheilffyrdd.

Yn ystod 2017, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl cael pwerau i gaffael masnachfaint nesaf Cymru a'r Gororau, y mae'n disgwyl iddi helpu i sicrhau bod y fasnachfaint yn diwallu anghenion hirdymor Cymru

- 1.2 Ym mis Ebrill 2006, o dan delerau cytundeb â'r Adran Drafnidiaeth, daeth Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am reoli'r fasnachfaint o ddydd i ddydd. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am reoli cyllid a pherfformiad gwasanaethau i deithwyr a gwmpesir gan y cytundeb masnachfaint.
- 1.3 Ym mis Mehefin 2011, roedd **Rhaglen Lywodraethu** Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i geisio sicrhau bod rhagor o bwerau dros reilffyrdd yn cael eu datganoli. Ym mis Tachwedd 2014, cytunodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn egwyddor i ddatganoli swyddogaethau masnachfreinio rheilffyrdd o fis Ionawr 2017, gan alluogi Llywodraeth Cymru i gymryd cyfrifoldeb llawn am ragnodi a chaffael masnachfreintiau rheilffordd Cymru a'r Gororau yn y dyfodol. Er mwyn helpu i gwblhau'r broses hon yn unol â'r amserlen ddeddfwriaethol, dechreuodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ddatblygu gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau er mwyn trosglwyddo pwerau a dyletswyddau statudol ar gyfer gwasanaethau trên perthnasol i Weinidogion Cymru.
- 1.4 Yn fwy diweddar, mae'r ddwy lywodraeth wedi cytuno y caiff swyddogaethau eu trosglwyddo yn nes ymlaen yn 2017. Er mwyn i hyn ddigwydd bydd angen i'r ddwy lywodraeth gytuno yn gyntaf ar ddull o ymdrin â gwasanaethau trawsffiniol, hynny yw, a fydd y gwasanaethau hyn yn aros o fewn masnachfaint Cymru a'r Gororau neu'n dod yn rhan o fasnachfreintiau eraill (gweler hefyd [baragraff 4.26](#)). Mae'r ddwy lywodraeth yn cydweithio i ddod i gytundeb a galluogi Llywodraeth Cymru i gaffael masnachfaint nesaf Cymru a'r Gororau yn llwyddiannus o fis Hydref 2018.
- 1.5 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu llofnodi'r contract ar gyfer y fasnachfaint newydd yn ystod 2017, gyda'r fasnachfaint yn dod yn weithredol ym mis Hydref 2018, yn amodol ar gystadleuaeth llwyddiannus. Rydym yn nodi rhagor o fanylion am amserlen y broses gaffael yn [Rhan 4](#) o'r adroddiad hwn.

1.6 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried mai hi yw'r corff mwyaf priodol i bennu masnachfrait a fydd yn cyflawni ei blaenoriaethau a diwallu anghenion hirdymor Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r canlyniadau gofynnol y mae'n rhaid i'r fasnachfrait newydd eu cyflawni, sef:



Nid oes gan Lywodraeth Cymru yr un pwerau i benderfynu ar brosiectau seilwaith rheilffyrdd ag sydd gan lywodraethau'r DU a'r Alban

- 1.7 Mae'r Adran Drafnidiaeth yn pennu'r amcanion lefel uchel ar gyfer rheilffyrdd a'r prosiectau seilwaith mawr sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion hyn drwy lunio 'Manyleb Allbwn Lefel Uchel' sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr. Mae'r Fanyleb Allbwn Lefel Uchel yn nodi blaenoriaethau o ran buddsoddi mewn rheilffyrdd ar gyfer 'cyfnod rheoli' o bum mlynedd a'r arian cyhoeddus sy'n debygol o fod ar gael er mwyn sicrhau y cyflawnir y prosiectau hyn. Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth Llywodraeth y DU sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch yr hyn y dylid ei gynnwys yn y Fanyleb Allbwn Lefel Uchel.
- 1.8 Yn wahanol i Lywodraeth yr Alban, nid oes gan Lywodraeth Cymru y pwerau i lunio ei Manyleb Allbwn Lefel Uchel ei hun y gallai ei defnyddio i orfodi Network Rail i fabwysiadu ei blaenoriaethau. Mae'r trefniadau presennol yn golygu mai dim ond ceisio dylanwadu ar yr Adran Drafnidiaeth i gynnwys prosiectau yn ei Manyleb Allbwn Lefel Uchel y gall Llywodraeth Cymru ei wneud. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, heb ei Manyleb Allbwn Lefel Uchel ei hun, ei bod yn cael ei rhwystro rhag cyflawni ei blaenoriaethau strategol lefel uchel ar gyfer rheilffyrdd a thrafnidiaeth yn fwy cyffredinol⁴.
- 1.9 Mae'r Fanyleb Allbwn Lefel Uchel bresennol yn cynnwys dau brosiect yng Nghymru, y mae'r ddau ohonynt yn ffrwyth gwaith a wnaed ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, sef:
 - a Trydaneiddio Prif Linell y Great Western (Paddington Llundain i Abertawe)⁵; a
 - b Trydaneiddio Llinellau'r Cymoedd, sydd bellach wedi'i ymgorffori ym mhrosiect Metro De Cymru Llywodraeth Cymru (**Blwch 1** ar dudalen 41)⁶.
- 1.10 Datblygodd Llywodraeth Cymru Raglen Gwella Hygyrchedd Gorsafoedd Cymru fel darpar brosiect i'w gynnwys ym Manyleb Allbwn Lefel Uchel 2014-2019, ond penderfynodd yr Adran Drafnidiaeth beidio â chynnwys y prosiect. Mae Llywodraeth Cymru wedi bwrw ati i gyflawni'r gwelliannau hyn i orsafoedd fel rhan o'i Rhaglen Gwella Gorsafoedd Cymru. Mae **Atodiad 4** yn nodi'r gorsafoedd a gwmpesir gan Raglen Gwella Gorsafoedd Cymru a'r gwahanol ffynonellau ariannu - Llywodraeth Cymru (gan gynnwys arian yr Undeb Ewropeaidd) a Network Rail - ar gyfer y rhaglen hon⁷.

4 Nodir manylion am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn ei **Chynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol**, Mawrth 2010 a **Chynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015**, Gorffennaf 2015.

5 Y bwriad o hyd yw y caiff y gwaith o drydaneiddio'r llinell i Gaerdydd ei chwblhau o fewn cyfnod rheoli 5. Fodd bynnag, mae prosiect trydaneiddio'r llinell rhwng Caerdydd ac Abertawe wedi'i aildrefnu ac ni ddisgwyliar i'r gwaith gael ei gwblhau tan gyfnod rheoli 6 (2019-24) o leiaf.

6 Arweiniodd y Fanyleb Allbwn Lefel Uchel flaenorol i Gymru a Lloegr ar gyfer y cyfnod rheoli rhwng 1 Ebrill 2009 a 31 March 2014 ar un prosiect mawr yng Nghymru – sef y cynllun Adnewyddu Signalau yn Ardal Caerdydd, sy'n dal i fynd rhagddo, a drafodir yn Astudiaeth Achos 3 ar dudalen 36.

7 Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi ariannu rhai gwelliannau i orsafoedd yng Nghymru drwy ei rhaglen Mynediad i Bawb. Mae gwelliannau i orsafoedd a wnaed o dan raglen Mynediad i Bawb hefyd yn cynnwys elfen o arian Llywodraeth Cymru (Atodiad 4).

- 1.11 Ym mis Mawrth 2016, ysgrifennodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd at Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Drafndiaeth yn mynegi pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch lefel buddsoddiad Network Rail mewn gwella seilwaith y rheilffyrdd yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif, ers 2011, fod Llwybr Cymru wedi cael 1 y cant o'r arian a wariwyd gan Network Rail ar wella'r seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru a Lloegr. Mae o'r farn bod y lefel hon o arian yn annigonol am nifer o resymau, er enghraifft, mae Llwybr Cymru yn cyfrif am tua 11 y cant o gyfanswm y rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru a Lloegr.
- 1.12 Yn yr un llythyr, nododd Llywodraeth Cymru hefyd, pe bai fformiwla Barnett yn cael ei chymhwyso at gyfanswm yr arian gwella sydd ar gael, y câi Llwybr Cymru 5 y cant o'r arian sydd ar gael, ond yn ei barn hi roedd dadleuon cryf y dylai Llwybr Cymru gael cyfran lawer mwy o'r arian na 5 y cant (er enghraifft dibynadwyedd Llwybr Cymru). Mae natur fformiwla Barnett yn golygu nad yw'n gymwys yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio i ni ei bod yn gwneud pwynt ynglŷn â'r ganran briodol o gyfanswm gwariant Network Rail pe câi ei chyfrifo fesul pen o'r boblogaeth.
- 1.13 Galwodd Llywodraeth Cymru ar yr Ysgrifennydd Gwladol i sefydlu cronfa wedi'i chlustnodi i ddatblygu gwelliannau i'r seilwaith ar Lwybr Cymru. Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafndiaeth wedi ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan Lywodraeth Cymru eto. Fodd bynnag, mae swyddogion yr Adran Drafndiaeth wedi pwysleisio i ni mai'r ffordd fwyaf effeithlon o ddyrannu arian ar gyfer gwella'r rhwydwaith rheilffyrdd strategol yw canolbwyntio buddsoddiad ar bwyntiau straen ar y rhwydwaith lle y disgwyliar i'r galw fod yn uwch na chapasiti, yn hytrach na dyrannu arian ar sail pro-rata.
- 1.14 Ym mis Mawrth 2014, argymhellodd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru⁸ y dylai Llywodraeth y DU ddatganoli ariannu Network Rail mewn perthynas â rhwydwaith Cymru. Gan nad oedd consensws trawsbleidiol ar lefel y DU, ni chynhwyswyd trosglwyddo pwerau dros seilwaith y rheilffyrdd yng 'Nghytundeb Dydd Gŵyl Dewi' 2015 rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Medi 2015, nododd Adran Drafndiaeth Llywodraeth y DU nad oedd yn bwriadu aildechrau trafodaethau ynghylch datganoli cyllid Network Rail.

8 Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, **Grymuso a Chyfrifoldeb Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru**, Mawrth 2014.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau priodol i ddylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi yn seilwaith y rheilffyrdd, er y gallai fod wedi gweithredu ynghynt i atgyfnerthu ei threfniadau goruchwylio a'i threfniadau cytundebol ar gyfer prosiectau a ariennir ganddi

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan weithredol yn y broses gynllunio ar gyfer y cylch buddsoddi mewn seilwaith nesaf ledled Cymru a Lloegr rhwng 2019 a 2024

1.15 Mae'r broses o gynllunio buddsoddi yn seilwaith y rheilffyrdd yng Nghymru a Lloegr yn un gymhleth⁹. Mae dwy brif elfen yn ategu'r broses o gyhoeddi'r Fanyleb Allbwn Lefel Uchel, sef: 'Proses Gynllunio Hirdymor' Network Rail; ac 'Adolygiad Cyfnodol' y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd a gynhelir bob pum mlynedd (Ffigur 3). Mae'r Broses Gynllunio Hirdymor yn llywio'r Adolygiad Cyfnodol.

Ffigur 3 – Elfennau allweddol y broses cynllunio buddsoddi yn seilwaith y rheilffyrdd ar gyfer Cymru a Lloegr

| Y broses gynllunio hirdymor – Network Rail | | Network Rail a'r diwydiant rheilffyrdd | Yr Adran Drafnidiaeth – Y Fanyleb Allbwn Lefel Uchel | Adolygiad Cyfnodol – Y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd |
|--|--|--|---|---|
| Mae Network Rail yn gweithio gyda'i randdeiliaid i ragfynegi'r galw am wasanaethau trên yn y dyfodol, cytuno ar flaenoriaethau o ran defnyddio'r capasiti sydd ar gael ac asesu opsiynau ar gyfer buddsoddi. | Mae Network Rail yn llunio strategaethau llwybrau sy'n nodi bylchau yn y ddarpariaeth ac opsiynau i fynd i'r afael â'r bylchau hynny (gan gynnwys astudiaeth benodol o lwybrau Cymru). | Mae Cyngor y Diwydiant yn nodi sut y gall y diwydiant rheilffyrdd ddarparu system reilffyrdd fwy effeithlon sy'n cynnig gwell gwerth am arian a sut y gall y system reilffyrdd chwarae rôl allweddol wrth lywio twf economaidd cynaliadwy. Caiff Cyngor y Diwydiant ei lywio gan y strategaethau llwybrau. | Mae'n nodi blaenoriaethau o ran buddsoddi mewn rheilffyrdd ar gyfer 'cyfnod rheoli' o bum mlynedd a'r arian cyhoeddus sy'n debygol o fod ar gael er mwyn sicrhau y cyflawnir y prosiectau hyn. Caiff y Fanyleb Allbwn Lefel Uchel ei llywio gan Gyngor y Diwydiant. | Mae'n pennu'r cyllid sydd ei angen er mwyn i Network Rail gyflawni'r prosiectau, yn annog arbedion ac enillion effeithlonrwydd ac yn pennu'r cymhellion sydd eu hangen er mwyn annog cyflawni a pherfformiad. |

Noder

Er mwyn adlewyrchu argymhellion yr **Adroddiad ar Adolygiad Bowe o'r modd y cynlluniwyd rhaglen wella Network Rail 2015-2019** a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2015 (Atodiad 1), mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth wedi cyhoeddi rhai newidiadau i fanylion y broses cynllunio buddsoddi.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

⁹ I gael gwybodaeth fanylach am rai o'r trefniadau cynllunio ar gyfer buddsoddi yn seilwaith y rheilffyrdd, gweler y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, **Planning and delivery of the 2014-2019 rail investment programme**, Medi 2015.

- 1.16 Grŵp Cynllunio o fewn y Diwydiant Rheilffyrdd sy'n bennaf cyfrifol am lywodraethu'r Broses Gynllunio Hirdymor. Mae Llywodraeth Cymru yn mynd i gyfarfodydd y grŵp hwn ac roedd hefyd yn aelod o weithgor a luniodd y ddogfen ymgynghori ar gyfer Astudiaeth Llwybrau Cymru. Cyhoeddodd Network Rail fersiwn derfynol **Astudiaeth Llwybrau Cymru** ym mis Mawrth 2016 gan nodi 14 o opsiynau i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth bresennol. Mae'r Astudiaeth yn cynnwys opsiynau i ateb y galw ychwanegol o ran teithio yng Nghymru, a rhwng Cymru a dinasoedd allweddol yn Lloegr. Er enghraifft, mae'r Astudiaeth yn cynnwys opsiwn i foderneiddio Prif Linell Arfordir Gogledd Cymru er mwyn gwella cysylltedd rhwng gogledd Cymru â Llundain, Manceinion, Lerpwl a Chaer.
- 1.17 Er ei bod yn cymryd rhan yng Ngrŵp Cynllunio'r Diwydiant Rheilffyrdd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y broses cynllunio strategaethau yn gyfyngedig ac nid yw'n rhoi sylw llawn i'w dyheadau ar gyfer gwasanaethau trên. Mae'r broses cynllunio strategaethau ond yn ystyried sut i ymateb i alwadau'r presennol a'r dyfodol ar y rhwydwaith fel y mae ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru am i Network Rail gynllunio ar gyfer 'newid mwy trawsnewidiol' ac ystyried datblygu llinellau a gorsafoedd newydd lle mae sail resymegol gadarn dros wneud hynny. Mae Strategaeth Llwybrau Cymru bresennol Network Rail yn canolbwyntio'n bennaf ar sut i ateb y cynnydd disgwyliedig yn y galw gan ddefnyddio'r 'rhwydwaith presennol'. Fodd bynnag, pwysleisiodd Network Rail i ni ei ymrwymiad i weithio gydag arianwyr er mwyn helpu i ddarparu llinellau newydd, er enghraifft cangen leol newydd i Abertyleri¹⁰.
- 1.18 Mae swyddogion yr Adran Drafnidiaeth wedi dweud wrthym fod Llywodraeth y DU yn annog y fath ymdrechion i hybu twf economaidd drwy wella capasiti'r rheilffyrdd, ond ei bod yn disgwyl i fuddiolwyr ariannu'r newidiadau, gan fod yr arian sydd ar gael iddi ariannu'r Fanyleb Allbwn Lefel Uchel yn gyfyngedig a bod angen ei dargedu, o reidrwydd, at wella capasiti ar 'bwyntiau straen' ar y rhwydwaith lle mae'r galw yn fwy na'r capasiti.
- 1.19 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda 'Grŵp Goruchwylio Cynllunio' y Grŵp Cyflawni Rheilffyrdd ('Rail Delivery Group')¹¹ sy'n gyfrifol am lunio Cynllun Cychwynnol y Diwydiant ar gyfer Cymru a Lloegr, gan ddefnyddio'r strategaethau llwybrau.
- 1.20 Fel rhan o'i hymdrechion i ddylanwadu ar Fanyleb Allbwn Lefel Uchel 2019-2024, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd. Dechreuodd yr ymgysylltu uniongyrchol hwn ym mis Tachwedd 2014, ac roedd yn cynnwys trafodaethau ynghylch datganoli rhagor o bwerau dros reilffyrdd, chwarae mwy o ran yn y broses hirdymor o gynllunio seilwaith y rheilffyrdd a chydberthynas gytundebol Llywodraeth Cymru â Network Rail. Ers mis Tachwedd 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi negodi nifer o ymrwymadau er mwyn helpu i sicrhau y caiff blaenoriaethau o ran gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru eu cynrychioli'n llawn yn yr Adolygiad Cyfnodol. Ymhlith y rhain mae ymrwymiad i gynnwys Llywodraeth Cymru mewn trefniadau i adolygu'r ffordd y caiff Network Rail ei ariannu.

¹⁰ Mae Network Rail yn gwneud gwaith i adnewyddu signalau ar linell Cwm Ebwy er mwyn gwneud darpariaeth addas ar gyfer ymestyn y llinell honno i Abertyleri yn y dyfodol, er mwyn adlewyrchu dyheadau cynllunio Llywodraeth Cymru.

¹¹ Sefydlwyd y Grŵp yn 2011 ac mae'n dwyn ynghyd berchenogion cwmnïau trên cludo teithwyr Prydain, gweithredwyr cludo nwyddau a Network Rail.

Tudalen y pecyn 53

- 1.21 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio dylanwadu ar yr Adran Drafnidiaeth i gynnwys prosiectau yn ei Manyleb Allbwn Lefel Uchel. Er enghraifft, wrth ddatblygu achos busnes dros drydaneiddio prif linell Gogledd Cymru i'w gynnwys yn y Fanyleb Allbwn Lefel Uchel (2019-2024). Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Medi 2015, nododd yr Adran Drafnidiaeth, drwy ddatblygu'r achos busnes dros y cynlluniau â blaenoriaeth yr hoffent eu rhoi ar waith, er enghraifft, fod Llywodraeth Cymru eisoes yn ymgysylltu â'r Adran Drafnidiaeth yn y ffordd gywir.
- 1.22 Mae Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cynnal ymchwiliad i'r blaenoriaethau ar gyfer seilwaith y rheilffyrdd yng Nghymru yn y dyfodol¹². Bwriedir i'w adroddiad ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch y prosiectau sy'n ymwneud â seilwaith rheilffyrdd Cymru i'w cynnwys yn y Fanyleb Allbwn Lefel Uchel nesaf ar gyfer y cyfnod rhwng 2019 a 2024.

Er bod gan Lywodraeth Cymru lai o bŵer dros Network Rail nag sydd gan Lywodraethau'r DU a'r Alban, gallai fod wedi gweithredu ynghynt i atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer goruchwyllo'r gwaith o gyflawni prosiectau

- 1.23 Ers mis Tachwedd 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu Bwrdd Rheoli Prosiectau a Rhaglenni ar y cyd rhwng Network Rail a Llywodraeth Cymru. Mae Trenau Arriva Cymru yn mynd i'r cyfarfodydd fel sylwedydd. Sefydlwyd y Bwrdd i graffu ar y ffordd y caiff prosiectau cyfalaf eu cyflawni mewn ffordd fwy gweithredol.
- 1.24 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod effeithiolrwydd y Bwrdd Rheoli Prosiectau a Rhaglenni yn cael ei gyfyngu gan sefyllfa gytundebol a chyfreithiol Llywodraeth Cymru. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y Bwrdd yn gyfle i wella ei chydberthynas waith ac ymgysylltu'n fwy strategol â Network Rail.
- 1.25 Yn ystod 2014, adolygodd Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru y ffordd roedd Llywodraeth Cymru yn adolygu contractau cyfalaf rheilffyrdd. Nododd Gwasanaethau Archwilio Mewnol nifer o nodweddion cadarnhaol ynghylch trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Rheoli Prosiectau a Rhaglenni. Cyn pob cyfarfod, mae Network Rail yn cyhoeddi crynodeb manwl o brosiect ar gyfer pob un o brosiectau presennol Network Rail. Mae pob crynodeb o brosiect yn cynnwys: cam presennol y prosiect; manylion rheolwyr y prosiect; dyddiad y cytundeb cyfreithiol; dyddiadau gwahanol gamau'r prosiect; data ariannol; sylwadaeth ar gynnydd y prosiect a materion a risgiau.
- 1.26 Ers mis Tachwedd 2014, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gweithredu Bwrdd Rheilffyrdd mewnol er mwyn dwyn ynghyd amrywiaeth o swyddogion prosiectau a pholisi rheilffyrdd er mwyn trafod prosiectau rheilffyrdd y presennol a'r dyfodol. Mae swyddogion yn y cyfarfodydd hyn yn cynnal adolygiad lefel uchel o gynlluniau cyfalaf rheilffyrdd ac yn ystyried a yw contractau yn cael eu cyflawni yn unol â'r amserlen ac o fewn y gyllideb ac yn diwallu'r anghenion a nodwyd.

¹² Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Blaenoriaethau ar gyfer Buddsoddi yn Seilwaith Rheilffyrdd Cymru yn y Dyfodol**, Mawrth 2016.

- 1.27 Caiff gwelliannau i seilwaith a nodir yn y Manylebau Allbwn Lefel Uchel eu categorioeddio'n 'allbynnau a reoleiddir'. Os yw Network Rail yn debygol o fethu, neu os bydd yn methu â chyflawni allbwn a reoleiddir, gall y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd benderfynu a yw'r methiant yn gyfystyr â thorri amodau'r drwydded ac a all gymryd camau yn erbyn Network Rail.
- 1.28 Mae Deddf Rheilffyrdd 2005 yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru ariannu gwelliannau i wasanaethau trên a seilwaith y rheilffyrdd. Fodd bynnag, nid yw gwaith a wneir gan Network Rail ar ran Llywodraeth Cymru yn cael ei reoli gan yr un gydberthynas reoleidiol, sy'n bodoli rhwng Network Rail, y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd a llywodraethau'r Alban a'r DU. Yn lle hynny, sefydlir cydberthynas Llywodraeth Cymru â Network Rail drwy gontractau unigol a lofnodir â Network Rail. Trafodir cyfyngiadau'r cydberthnasau cytundebol hyn isod ([paragraffau 1.33 i 1.39](#)).
- 1.29 Gall Llywodraeth Cymru ofyn i'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd ymchwilio ar ei rhan i gŵyn ffurfiol yn erbyn Network Rail. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd ystyried cynnydd yng nghostau'r prosiect sy'n cael ei gyflawni gan Network Rail i leihau amserau teithio a chynyddu capasiti ar y llinell rhwng gogledd a de Cymru. Mewn ymateb i'r cais hwn, ystyriodd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd a oedd gwaith Network Rail ar y contract yn amlygu problemau systemig a allai fod yn gyfystyr ag achos posibl o dorri amodau trwydded ei rwydwaith¹³. Dywedodd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd wrthym fod ei hadolygiad wedi nodi nifer o ddiffygion o ran y ffordd y cynlluniwyd y prosiect a'r ffordd y mae'n cael ei gyflawni. Fodd bynnag, gan fod Network Rail wedi llunio cynllun gwella i fynd i'r afael â'r problemau hyn ac yn ei roi ar waith, roedd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd o'r farn na fyddai'n fuddiol ystyried achos pellach o dorri amodau'r drwydded.
- 1.30 Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud wrthym nad yw o'r farn bod y gorwariant i'w briodoli i'r camau a gymerwyd ganddi, a bod Network Rail bellach yn ystyried cyflwyno cais am y costau hyn i gronfa risg a ffioedd y diwydiant ([paragraff 1.35](#)).
- 1.31 Oherwydd pryderon sydd wedi'n nodi'n eang bu perfformiad Network Rail yn destun tri adolygiad diweddar ([Atodiad 1](#)). At hynny, ar 31 Mawrth 2015 rhoddodd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd rybudd ffurfiol i Network Rail ei bod yn bwriadu ymchwilio i b'un a oedd Network Rail yn gwneud popeth sy'n 'rhesymol ymarferol' i gyflawni ei rwymedigaethau i gyflawni prosiectau gwella. Ym mis Hydref 2015, hysbysodd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd ei bod o'r farn bod Network Rail wedi torri amodau trwydded ei rwydwaith am ei fod wedi methu â chynllunio a chyflawni ei raglen o welliannau yn ddigonol i'r graddau mwyaf sy'n rhesymol ymarferol.
- 1.32 Mae trafodaethau diweddar Llywodraeth Cymru â'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd ([paragraff 1.20](#)) wedi cynnwys deialog ynglŷn â sut y gall Llywodraeth Cymru ddwyn Network Rail i gyfrif o gofio statws Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, cyfarfu'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd a Llywodraeth Cymru am y tro cyntaf ym mis Medi 2015 yn benodol i adolygu perfformiad Network Rail. Mae'r Swyddfa

¹³ Mae Network Rail yn gweithredu o dan drwydded rhwydwaith, sy'n cynnwys set o amodau y mae'n rhaid i Network Rail weithredu oddi tanynt. Y drwydded rhwydwaith yw'r dull a ddefnyddir gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd i ddwyn Network Rail i gyfrif.


Rheilffyrdd a Ffyrdd a Llywodraeth yr Alban yn cynnal cyfarfodydd tebyg â Network Rail i adolygu perfformiad. Mae'r amserlen gymharol fyr ar gyfer rhoi rhai o'r un cyfleoedd i Lywodraeth Cymru oruchwylio Network Rail ag sydd gan Lywodraeth yr Alban yn awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi cyflawni'r canlyniad hwn ynghynt.

Dim ond yn ddiweddar y mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael â chyfyngiadau ei chydberthnasau cytundebol â Network Rail

- 1.33 Wrth weithio gydag arianwyr heblaw am lywodraethau'r Alban a'r DU – arianwyr yn y sector preifat neu arianwyr eraill yn y sector cyhoeddus – mae Network Rail yn ymrwymo i gontractau sy'n seiliedig ar dempledi safonedig y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd. Mae pedwar prif fath o gytundeb sy'n cwmpasu mathau gwahanol o waith. Datblygodd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd y contractau templed hyn er mwyn lleihau'r amser a gymerir i gwblhau'r trafodyn a'r gost i fuddsoddwyr o gymharu â negodi contract o'r cychwyn cyntaf. Bwriedir i gontractau templed hefyd reoli'r gydberthynas rhwng Network Rail ac arianwyr yn y sector preifat. Fodd bynnag, gall Llywodraeth Cymru roi mwy o sicrwydd ynghylch ariannu ei chontractau nag y gall buddsoddwr yn y sector preifat ei wneud.
- 1.34 Mae rhai contractau templed yn gontractau costau sy'n dod i'r amlwg ('cost emerging contracts'), sy'n golygu mai Llywodraeth Cymru, yn hytrach na Network Rail, sy'n talu unrhyw gostau ychwanegol ar ben y gost amcangyfrifedig. Mae pob contract templed yn gofyn am ychwanegu swm o arian wrth gefn sy'n amrywio yn ôl y prosiect ac sy'n seiliedig ar asesiad risg Network Rail nad yw Llywodraeth Cymru bob amser yn cymryd rhan ynddo. Weithiau, ac fel y caniateir iddo wneud hynny, mae Network Rail yn gwario arian wrth gefn y prosiect heb hysbysu Llywodraeth Cymru ([Astudiaeth Achos 1](#)).
- 1.35 Yn gyffredin â phob ariannwr arall, ac eithrio llywodraethau'r DU a'r Alban, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru dalu premiwm o 2 y cant fesul prosiect i 'Gronfa Risg y Diwydiant Rheilffyrdd' Network Rail. Mae'r gronfa hon yn gweithredu mewn ffordd debyg i yswiriant gan fod arianwyr yn gallu defnyddio'r gronfa, o bosibl, i dalu costau annisgwyl penodol, megis unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â newid yn y gyfraith sy'n effeithio ar y ffordd y mae'r diwydiant yn gweithio. Mae Network Rail yn penderfynu lle y dylai costau annisgwyl gael eu talu o'r gronfa. Bydd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd yn cymryd rhan y broses os bydd anghydfod rhwng Network Rail a'r ariannwr ynghylch a ddylai'r gronfa dalu'r swm a geisir. Mae Llywodraeth Cymru yn aros am benderfyniad gan Network Rail ynghylch cais am gostau annisgwyl yr aed iddynt gan y prosiect i wella amseroedd teithio rhwng gogledd a de Cymru ([Astudiaeth Achos 1](#)). Hwn fyddai'r cais cyntaf o'i fath a wnaed gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r gronfa wedi cael ei defnyddio gan Network Rail i dalu costau annisgwyl ychwanegol o £0.23 miliwn ar waith ym Mhontypridd ([Atodiad 4](#)).

- 1.36 Nid yw pob contract templed yn cynnwys yr hawl i'r ariannwr derfynu'r cytundeb. Fodd bynnag, os oes gan yr ariannwr yr hawl i derfynu'r contract, mae'r contract yn ffafrio Network Rail o ran talu costau. Er enghraifft, mae'r contract templed yn nodi, os caiff contract ei derfynu, na fydd gan yr ariannwr yr hawl i unrhyw daliad nac iawndal nac unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill mewn perthynas â cholli elw, referniw neu ewyllys da. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi terfynu unrhyw un o'i chontractau â Network Rail.

Astudiaeth Achos 1 – Defnydd Network Rail o arian wrth gefn ar y gwelliannau i Gyffordd yr Orsedd a Saltney



